Nodyn canllaw: gwella bioamrywiaeth

Rhaid i'r Cyngor geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth a hyrwyddo gwydnwch ecosystemau

Pam mae angen gwelliannau?

- Dan ddyletswydd Adran 6 Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, rhaid i'r Cyngor gynnal a gwella bioamrywiaeth a hyrwyddo gwydnwch ecosystemau.
- Mae Nod Cymru Gydnerth Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn nodi'r canlynol: "Cenedl sy'n cynnal ac yn gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau iach gweithredol sy'n cynnal cydnerthedd cymdeithasol, economaidd ac ecolegol ynghyd â'r gallu i addasu i newid (er enghraifft, newid yn yr hinsawdd).
- Mae Cynllun Cenedlaethol Cymru'r Dyfodol yn cynnwys Polisi 9: "... Ym mhob achos, dylai camau gweithredu tuag at gynnal a gwella bioamrywiaeth (er mwyn sicrhau mantais net), gwneud ecosystemau yn gadarn ac asedau seilwaith gwyrdd gael eu dangos fel rhan o gynigion datblygu drwy ddulliau arloesol yn seiliedig ar natur o gynllunio safleoedd a dylunio'r amgylchedd adeiledig."

Bydd darparu nodweddion gwella yn gymesur â graddfa, lleoliad a natur y datblygiad a bydd yn ymateb i unrhyw wybodaeth a ddarperir mewn Adroddiadau ac Arolygon Ecolegol ynghylch effeithiau negyddol posibl y datblygiad a'r cyfleoedd i wella bioamrywiaeth y mae'r datblygiad arfaethedig yn eu cynnig.

Nid yw'r enghreifftiau canlynol yn rhestr gynhwysfawr o fesurau ac ni fydd yr holl fesurau a nodir yn berthnasol i bob safle. Fodd bynnag, dylai pob datblygiad gynnwys cymaint o welliannau ag sy'n ymarferol ac yn briodol.

Pa wybodaeth sydd angen ei chyflwyno gyda cheisiadau cynllunio?

Darluniad pensaernïol yw'r ffordd orau o ddangos lleoliad arfaethedig gwelliannau, er enghraifft dangos blwch adar ar weddau adeilad. Bydd angen nodyn hefyd ar y darluniad yn nodi manyleb y gwelliant, er enghraifft brand neu fath y blwch adar, h.y. Blwch Nythu Cerrig Pren i Wenoliaid Duon. Bydd angen i'r gwelliannau fod ag "amserlen weithredu" ar gyfer pryd y mae'n rhaid eu cyflawni. Gallai hyn fod o fewn 6 mis i gwblhau'r datblygiad gan gadw'r gwelliant am oes y datblygiad. Felly, mae dyletswydd i gynnal y gwelliant fel ei fod yn parhau o fudd i fioamrywiaeth yn y dyfodol.

Mae bob amser yn well cyflwyno cynigion gwella ecolegol ymlaen llaw gyda cheisiadau cynllunio, waeth beth fo math y cais (e.e. cyn, amlinellol neu lawn). Mae hyn yn dangos bod bioamrywiaeth yn cael ei ystyried o'r cychwyn cyntaf.

Ar gyfer datblygiadau ar raddfa fach iawn sy'n ymwneud â chynigion deiliaid tai, er enghraifft, mae syniadau gwella ecolegol ar raddfa fach wedi'u cynnwys yn **y ddogfen hon**.

Tabl 1: Crynodeb o Gyfleoedd Gwella

Plannu a Chreu Cynefinoedd	Rhywogaethau Penodol	Cynefinoedd Dŵr
§ Creu **coridorau bywyd gwyllt** / nodweddion llinol ar gyfer symudiadau bywyd gwyllt. § Plannu **gwrychoedd rhywogaethau brodorol** newydd neu wella rhai sy'n bodoli eisoes. § Sefydlu ardaloedd o **ddolydd blodau gwyllt** § Plannu coedlan neu **goetir brodorol** newydd neu wella un sy'n bodoli eisoes. § Defnyddio **planhigion brodorol** yn y dyluniad tirweddu. § Ychwanegu ymyriadau **seilwaith gwyrdd** dinesig (toeau gwyrdd a / neu waliau gwyrdd) i ddarparu cynefin ar gyfer planhigion ac anifeiliaid.	§ **Adar:** darparu blychau neu frics adar ar gyfer rhywogaethau gwarchodedig neu flaenoriaeth § **Ystlumod:** darpariaethau fel blychau soffit agored neu fynediad i fannau llofft neu osod blychau neu frics ystlumod. § **Ymlusgiaid, amffibiaid a mamaliaid bach:** darparu llochesau / gaeafleoedd ar gyfer ymlusgiaid ac amffibiaid a mamaliaid bach. § **Dyfrgwn:** creu gwaliau dyfrgwn artiffisial. § **Draenogod:** ffensys sy'n dda i ddraenogod, gosod cartrefi draenogod. § **Anifeiliaid di-asgwrn cefn:** Darparu gwestai pryfed, plannu planhigion sy'n dda i bryfed peillio a chadw pren marw. § **Rhywogaethau estron goresgynnol:** Cael gwared â rhywogaethau estron goresgynnol fel Ffromlys Chwarennog a Chlymog Japan.	§ **Creu pwll bywyd gwyllt** neu nodweddion gwlyptir. § **Gwella dyfrffordd** a'i banc; creu parthau clustogi ar hyd cyrsiau dŵr gyda rhywogaethau brodorol o darddiad lleol wedi'u plannu. § **Naturioli/adfer cyrsiau dŵr** ac agor cwlferi. § **Darparu systemau draenio dinesig cynaliadwy bioamrywiol** sy'n gweithredu fel cynefinoedd bywyd gwyllt, er enghraifft, pantiau a phyllau cydbwyso. § **Gwelliannau morol** fel cynyddu garwedd arwynebau i gefnogi twf cymunedau morol.

Tabl 2: Tirweddu a Chyfleoedd i Wella a Chreu Cynefinoedd

Egwyddorion Allweddol	Dylai cynlluniau dylunio tirwedd (lle bo'n bosibl ac yn briodol):
§ Cydnabod nad yw plannu a chreu cynefinoedd yn gallu cymryd lle diogelu safleoedd presennol o werth bywyd gwyllt uchel. § Ystyried y potensial ar gyfer adfywio naturiol - mewn rhai achosion bydd angen plannu i liniaru'r hyn a allai gael ei ystyried yn afreolus. § Cynllunio ymlaen llaw i roi digon o amser i gontractwyr gael planhigion a pharatoi'r safle.	§ Cynnwys cynefinoedd a nodweddion presennol mewn 'mannau gwyrdd'. § Cadw gwrychoedd a choed aeddfed a hynafol am eu gwerth bioamrywiaeth uchel - bydd angen monitro'r rhain bob blwyddyn er mwyn eu diogelu. § Defnyddio 'man cyhoeddus' i ddangos buddion bioamrywiaeth trwy ddefnyddio rhywogaethau brodorol o darddiad lleol ar gyfer dolydd blodau gwyllt, coetiroedd, ffiniau llwyni a chreu pyllau, pentyrrau pren ac ati. Dylid cyfyngu mynediad i un ochr o'r cynefin er mwyn peidio ag aflonyddu ar fywyd gwyllt. § Ategu, yn hytrach na thynnu sylw oddi wrth, gymeriad a gwahanolrwydd cefn gwlad naturiol yr ardal leol. § Hyrwyddo 'Garddio ar gyfer Bywyd Gwyllt' - dewiswch blanhigion sy'n blodeuo i annog gwenyn a phili-palod; aeron i annog adar a gwahanol fathau o risgl i annog amrywiaeth eang o bryfed. § Defnyddio cymysgeddau hadau llawn rhywogaethau ar gyfer ardaloedd glaswelltog.

	§ Cynnwys nodweddion bioamrywiaeth ychwanegol, fel blychau nythu, seilwaith gwyrdd a thriniaethau ffiniau sy'n dda i fywyd gwyllt.

Tabl 3: Arweiniad ar Fanyleb Mesurau Gwella

Mesur	Disgrifiad
Gwrychoedd a Choetiroedd	Mae gwrychoedd, coedlinau a choetiroedd yn adnodd gwerthfawr i fywyd gwyllt ac maent yn gynefin â blaenoriaeth Adran 7 o ran cadwraeth yng Nghymru. Felly, rhaid cynnal y cynefinoedd hyn o leiaf ar sail debyg am debyg. Lle bo angen ailblannu, dylid bob amser ddefnyddio rhywogaethau brodorol, yn ddelfrydol o darddiad lleol. Lle defnyddir dulliau trawsosod neu greu, dylid ystyried defnyddio'r banc pridd o fôn y coed / gwrychoedd presennol a gaiff eu colli. Gellir gwella gwrychoedd a choetiroedd presennol trwy lenwi'r bylchau gyda phlanhigion ychwanegol neu drwy weithredu cyfundrefn reoli ecolegol sensitif. Gall plannu coed newydd ar safle, yn enwedig pan maent wedi'u cysylltu â gwrychoedd / coetiroedd presennol, gynyddu'r gwerth bioamrywiaeth yn fawr. Dylid plannu o leiaf 5 rhywogaeth frodorol goediog er mwyn i'r safle fod yn llawn rhywogaethau. Gallai rhywogaethau gynnwys: derwen, collen, draenen wen, draenen ddu, celyn, gwyddfid, gwifwrnwydden y gors a gwifwrnwydden. Mae gwrychoedd a choedliniau yn cynnig cynefin gorffwys/bridio/chwilota ar gyfer **adar, pathewod, amffibiaid** ac **ymlusgiaid** a chynefin cymudo hefyd ar gyfer **ystlumod, moch daear** a **dyfrgwn**. Dylid cadw'r coridorau hyn yn dywyll er mwyn osgoi aflonyddu ar anifeiliaid nosol sy'n eu defnyddio.
Blodau Gwyllt	Mae dolydd blodau gwyllt yn adnodd pwysig i anifeiliaid di-asgwrn cefn sy'n peillio, sydd wedyn yn cynnig ffynhonnell fwyd i **adar, ymlusgiaid, amffibiaid** a **mamaliaid bach**. Lle bynnag y cynigir plannu glaswellt ar safle datblygu, dylid ystyried cymysgedd amrywiol, gan gynnwys rhywogaethau blodau gwyllt, ynghyd â chyfundrefn dorri briodol er mwyn cynnal yr amrywiaeth. Bydd angen cadw lefelau'r maethynnau yn y pridd yn isel i annog blodau gwyllt, drwy ddefnyddio technegau fel torri a chasglu a'r swm isaf o uwchbridd.
Seilwaith Gwyrdd	Gall datrysiadau ecolegol i broblemau peirianneg gynnig cyfleoedd i wella bioamrywiaeth. Er enghraifft, datrysiadau Seilwaith Gwyrdd fel plannu rhywogaethau coed brodorol i sefydlogi glannau afonydd, neu ddefnyddio pyllau i wanhau llifogydd a gwelyau cyrs i hidlo dŵr. Gall toeau gwyrdd a waliau gwyrdd hefyd fod o fudd i fioamrywiaeth, tra'n cyflawni swyddogaethau eraill fel oeri adeiladau.
Adar	Mae blychau adar yn ffordd effeithiol iawn o wella bioamrywiaeth gan eu bod yn rhad, yn hawdd eu gosod ac yn addas i amrywiaeth o rywogaethau. Disgwylir i bob **datblygiad tai newydd** gynnwys blychau / brics adar integredig fel mesur gwella. Mae cymhareb o 1 blwch / bric nythu fesul annedd o leiaf yn arfer da. Anogir cynnwys blychau / brics nythu i wenoliaid du gan mai dyma'r blychau / brics nythu "cyffredinol" oherwydd bod rhywogaethau eraill yn eu defnyddio'n rhwydd, gan gynnwys adar y to, drudwennod, gwenoliaid y bondo, titwod tomos las, titwod mawr a delorion cnau. **Gwaith trosi/estyn/adnewyddu:** Mae llawer o rywogaethau adar yn dibynnu ar graciau ac agennau ar dai i nythu ynddynt. Po fwyaf o waith adnewyddu sy'n cael ei wneud, y lleiaf o gyfleoedd sydd gan yr adar hyn i nythu. Felly, dylid cynnwys blychau adar hefyd fel gwelliannau mewn ceisiadau deiliaid tai ar gyfer adeiladau presennol ac yn enwedig ysguboriau ac adeiladau amaethyddol eraill. Gellir gosod blychau adar hefyd ar goed addas, os nad oes adeiladau sy'n addas.

	Mae blychau adar cerrig pren neu goncrit pren yn well na rhai pren oherwydd eu bod yn llawer mwy gwydn. Bydd lleoliad blwch adar yn dibynnu ar y rhywogaeth y mae'n ei thargedu, ond yn gyffredinol bydd angen iddo fod yn wynebu rhwng y gogledd a'r dwyrain er mwyn osgoi golau haul cryf a'r gwyntoedd gwlypaf, bod â llwybr hedfan clir a bod i ffwrdd o aflonyddwch fel goleuadau, drysau a ffenestri. Rhaid dangos lleoliad a math y blychau adar ar ddarluniad pensaernïol a'u cyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol i'w cymeradwyo.
Ystlumod	Fel adar, mae llawer o rywogaethau ystlumod yn dibynnu ar adeiladau i glwydo ynddynt ac felly mae cyfleoedd yn lleihau wrth i adeiladau gael eu hadnewyddu neu eu dymchwel. Felly, dylid cynnwys blychau ystlumod neu ddarpariaethau eraill (fel mynediad i fannau/soffitau llofftydd) ar bob datblygiad adeiladu, lle bo hynny'n bosibl. Gellir gosod blychau ystlumod ar y tu allan i adeiladau presennol neu ar goed a gedwir. Disgwylir i bob **datblygiad tai newydd** gynnwys blychau / brics ystlumod integredig fel mesur gwella. Mae blychau ystlumod cerrig pren neu goncrit pren yn well na rhai pren oherwydd eu bod yn llawer mwy gwydn. Dylid gosod blychau ystlumod o leiaf 4m uwchben y ddaear, ar agwedd dde-ddwyreiniol i dde-orllewinol, dylent fod â llwybr hedfan clir a dylent fod i ffwrdd o aflonyddwch fel goleuadau, drysau a ffenestri. Rhaid dangos lleoliad a math y blychau ystlumod ar ddarluniad pensaernïol a'u cyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol i'w cymeradwyo. Os oes ystlumod yn bresennol, bydd angen strategaeth goleuadau sensitif hefyd. Dylai hyn ddilyn yr argymhellion sydd yn y Nodyn Cyfarwyddyd 'Bats and Artificial lighting in the UK', a gynhyrchwyd gan yr Ymddiriedolaeth Cadwraeth Ystlumod a'r Sefydliad Gweithwyr Goleuadau Proffesiynol: https://www.bats.org.uk/our-work/buildings-planning-and-development/lighting
Ymlusgiaid, Amffibiaid, Mamaliaid Bach ac Anifeiliaid Di-asgwrn Cefn	Gall cynnwys 'pentyrrau cynefin' wella gwerth bioamrywiaeth safle. Gallai hyn fod yn lloches bwrpasol gan ddefnyddio rwbel a thyweirch, pentwr o goediach o waith clirio coed neu bentwr o doriadau glaswellt. Mae cadw pren marw ar y safle yn bwysig gan ei fod yn gynefin i lawer o rywogaethau o anifeiliaid di-asgwrn cefn a ffyngau.
Dyfrgwn a Moch Daear	Gall creu tanffyrdd o dan ffyrdd newydd neu bontydd gwyrdd dros ffyrdd newydd helpu i atal anafiadau ymysg bywyd gwyllt a hefyd i atal darnio cynefinoedd. Mae tanffyrdd / cwlferi yn aml yn cael eu targedu ar gyfer dyfrgwn a moch daear, ond gellir eu targedu at rywogaethau llai fel **amffibiaid** a **draenogod**. Os oes cwrs dŵr ar neu ger y safle datblygu, yna gellir cynnwys gwâl dyrfgŵn artiffisial fel gwelliant. Gall hyn fod mor syml ag adeiladu lloches gan ddefnyddio logiau. Bydd plannu gwrychoedd a choetir yn gwella safle i ddyfrgwn a moch daear.
Draenogod	Mae niferoedd y draenogod wedi gostwng yn aruthrol yn ystod y blynyddoedd diwethaf a chredir bod niferoedd y boblogaeth yn dal i ostwng. Mae'r rhywogaeth wedi'i chynnwys yn rhestr Adran 7 fel Rhywogaeth â Blaenoriaeth Cadwraeth yng Nghymru. Ym mis Gorffennaf 2020, ychwanegwyd draenogod at Restr Goch yr Undeb Rhyngwladol dros Gadwraeth Natur ar gyfer Mamaliaid Prydain, ac maent bellach yn cael eu dosbarthu'n rhywogaeth sy'n agored i ddifodiant. Mae gerddi domestig yn adnodd gwerthfawr i ddraenogod, ond mae ffensys gardd yn rhwystr parhaol i ddraenogod. Er mwyn helpu i fynd i'r afael â'r broblem cysylltedd cynefinoedd hon, rhaid i'r holl ddatblygiadau newydd gynnwys bylchau maint draenog ar waelod yr holl ffensys gardd newydd. Gall hyn fod naill ai: · bwlch parhaus o 100 mm; neu · sgwariau rheolaidd o 130mm x 130mm sy'n galluogi mynediad a symudiad parhaus rhwng gerddi cyfagos i chwilio am fwyd. Mae mwy o fanylion yn y darluniadau manyleb ar ddiwedd y nodyn hwn. Mae'r Cyngor yn ei gwneud yn ofynnol i briffyrdd draenog a thriniaethau ffiniau gael eu nodi ar ddarluniad plot pensaernïol.

Rhywogaethau Estron Goresgynnol (RhEG)	Gall RhEG ledaenu'n gyflym ac maent yn broblem oherwydd eu gallu i darfu ar gynefinoedd ac ecosystemau brodorol. Gall RhEG drechu rhywogaethau brodorol, lledaenu clefydau a thorri ar draws cyfanrwydd genetig rhywogaethau brodorol. Os yw planhigion sy'n RhEG, er enghraifft clymog Japan neu Ffromlys Chwarennog, yn cael eu nodi ar / ger safle cais, yna bydd amod yn cael ei roi ar y caniatâd cynllunio i gyflwyno cynllun rheoli RhEG, gan roi manylion osgoi/trin/gwaredu rhywogaethau o'r fath. Bydd gwaredu RhEG o safle o fudd i'r fioamrywiaeth frodorol ac felly gall fod yn welliant ecolegol.
Creu Pyllau Bywyd Gwyllt	Mae creu pwll bywyd gwyllt o fudd i fioamrywiaeth yn ogystal â bod â manteision eraill fel gwanhau llifogydd ac fel nodwedd amwynder. Gellir plannu rhywogaethau brodorol fel gellesgen felen, gwaedlys mawr, mintys y dŵr a llysiau taliesin ar hyd ymylon pwll. Mae madfallod dŵr yn defnyddio dail planhigion dyfrol tanddwr i ddodwy eu hwyau. Gellir creu pyllau bywyd gwyllt hefyd ar raddfa fach mewn gardd breswyl a byddant yn darparu cynefin ar gyfer **anifeiliaid di-asgwrn cefn** ac **amffibiaid** a dŵr ar gyfer **adar** a **mamaliaid bach**.
Gwella Dyfrffyrdd	Gellir gwella dyfrffyrdd presennol o ran bioamrywiaeth mewn nifer o ffyrdd, gan gynnwys gwaredu RhEG, gwaredu sbwriel, plannu rhywogaethau blodeuol brodorol a gwella ansawdd dŵr trwy weithredu mesurau atal llygredd neu systemau draenio cynaliadwy (SDCau) ar y tir sy'n draenio i'r cwrs dŵr.
SDCau sy'n dda i fywyd gwyllt	Gellir draenio mewn ffordd sy'n dda i fywyd gwyllt trwy gynnwys mesurau syml fel ysgolion amffibiaid i alluogi anifeiliaid i ddringo allan o botiau gylïau. Gellir defnyddio SDCau i wella safle o ran bioamrywiaeth trwy blannu rhywogaethau brodorol, er enghraifft.

Gwefannau defnyddiol:

Canllaw'r Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar (RSPB) ar flychau adar: https://www.rspb.org.uk/birds-and-wildlife/advice/how-you-can-help-birds/nestboxes/nestboxes-for-small-birds/making-and-placing-a-bird-box/

Canllaw Swift Conservation ar flychau gwenoliaid du: https://www.swift-conservation.org/Nestboxes%26Attraction.htm a https://swift-conservation.org/universal_swift_nest_brick02.pdf

Canllaw'r Ymddiriedolaeth Cadwraeth Ystlumod ar flychau ystlumod: https://cdn.bats.org.uk/pdf/Bat-Box-Information-Pack-Sept-2020-JF.pdf?mtime=20200914160420&focal=dim

Canllaw Ymddiriedolaeth y Bobl ar gyfer Rhywogaethau Mewn Perygl ar liniaru draenogod: https://www.britishhedgehogs.org.uk/wp-content/uploads/2019/03/Hedgehog-Street-HEMP-guide.pdf

Canllaw Froglife ar byllau bywyd gwyllt: https://www.froglife.org/wp-content/uploads/2013/06/JAW-2014-compressed.pdf

Canllaw Amphibian and Reptile Conservation: https://www.arc-trust.org/Pages/Category/gardens-and-ponds a https://www.arc-trust.org/Pages/Category/habitat-management

Canllaw Buglife: https://www.buglife.org.uk/get-involved/gardening-for-bugs/ a https://www.buglife.org.uk/resources/publications-hub/habitat-management/

Canllaw'r Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt ar ddyfrgwn: https://assets.sussexwildlifetrust.org.uk/managing-land-for-otters.pdf

Canllaw Ymddiriedolaeth y Bobl ar gyfer Rhywogaethau Mewn Perygl ar lygod y dŵr: https://ptes.org/campaigns/water-voles/helping-water-voles-on-your-land/

Canllaw Ymddiriedolaeth y Bobl ar gyfer Rhywogaethau Mewn Perygl ar reoli coetir ar gyfer pathewod: https://ptes.org/wp-content/uploads/2014/06/managing-woodlands-for-dormice-final.pdf